

# Ymgysylltiad Rhanddeiliaid: Y paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE

Y Pwyllgor Cyllid | 13 Mehefin 2018

Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad anffurfiol i randdeiliaid yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Dinas-ranbarth Bae Abertawe, ar 07 Mehefin 2018. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar graffu cyn y gyllideb a'r ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE ar gyfer Cymru.

## 1. Llywodraethu

Roedd y rhanddeiliaid o'r un farn ynghylch llywodraethu ffrydiau cyllid newydd. Dadleuodd y cynadleddwyr y dylai fod gan Gymru, mewn egwyddor, reolaeth lawn dros ei ffrydiau cyllid newydd, yn hytrach na'u bod yn dod trwy law San Steffan. Cynigiodd rhai rhanddeiliaid y ddadl y byddai rheoli ffrydiau cyllido yng Nghymru yn helpu i osgoi cystadlu am gyllid ar draws ffrydiau. Fodd bynnag, cynigiodd is-set o randdeiliaid gafeat fod perygl y gallai Cymru fynd yn rhy ynysig pe bai pob ffrwd gyllido yn dod yn uniongyrchol i Gymru, a bod rhaid wrth fesurau diogelwch i liniaru hyn.

Mynegodd rhai cynrychiolwyr bryderon ynglŷn â'r berthynas, a llif y wybodaeth, rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau a busnesau. Hynny yw:

- y chydig iawn o wybodaeth sydd am y ffordd y mae'r Gronfa Ffyniant a Rennir yn cael ei rhannu;
- yr angen i ystyried yr agweddau cyfreithiol ar y trefniadau llywodraethu cyllid a ddymunir ar ôl Brexit. Awgrymodd un rhanddeiliad fod "angen arnom ddadleuon cyfreithiol i gefnogi ein dadl dros gynnal cyllid a Bil yr Undeb Ewropeaidd, a bod rhaid sicrhau bod gennym gyllid ar sail tystiolaeth";
- mae prinder dybryd o drafodaethau rhynglywodraethol yn digwydd yn ystod proses Brexit, sy'n peri pryder yn y trydydd sector yn benodol (cofnodwyd hyn ar ddau achlysur: fel pwynt cyffredinol ar yr achlysur cyntaf, ac mewn perthynas â strategaethau hirdymor a chynlluniau cyllido ar yr ail achlysur); ac



- nid oes llawer o drafodaeth na chyfeirio yn digwydd ar hyn o bryd "ar lawr gwlad" rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau/busnesau, a dylai fod mwy o ymgysylltiad ynghylch y dyfodol gyda'r sefydliadau hyn.

Mae sylwadau eraill gan randdeiliaid yn cynnwys:

- argymhelliad y dylai Cymru anelu at gael "terfyn isaf arian parod", a fyddai'n gwarantu na fyddai arian i Gymru yn disgyn o dan swm penodol;
- ni ddylai fod gweinyddiaeth ranbarthol na lleol ar gyfer prifysgolion, gan nad ydynt yn gweithredu o fewn cyfyngiadau gofodol o'r fath;
- dylai Llywodraeth Cymru baratoi ar gyfer newid diwylliant mawr, o gofio bod datganoli wedi "dod i oed ym mhresenoldeb yr UE";
- mae "gormod o fiwrocratiaeth ar hyn o bryd, a gormod o daflenni gwaith", a dylai busnesau gael "cyflwyno drostynt eu hunain a phlisma eu hunain". Mynegodd rhai rhanddeiliaid eu hanfodlonrwydd â lefel y fiwrocratiaeth wrth wneud cais am gronfeydd yr UE, gan nodi nad yw hyn yn caniatáu hyblygrwydd ceisiadau hapfasnachol ar gyfer cyllid, ond dywedodd eraill fod Banc Buddsoddi Ewrop wedi bod yn bartner gwaith da, oherwydd ei ddull archwilio ysgafn a'i ddiffyg biwrocratiaeth yn gymharol; ac
- mae angen corff lled annibynnol tebyg i WEFO. Nododd rhanddeiliaid, pe bai hon yn adran o Lywodraeth Cymru, byddai'n rhaid sicrhau ei bod yn cydweithio'n agos gydag adrannau Llywodraeth a sefydliadau eraill.

## 2. Sut y dylid dyrannu cyllid sy'n disodli'r hen ffrydiau cyllido

Nododd rhanddeiliaid fod anawsterau dwys wrth asesu risgiau yn ystod proses Brexit, ond bod meysydd risg penodol yn cynnwys:

- Addysg uwch
- Amaethyddiaeth
- Prosiectau cyfalaf mawr

Nododd nifer o randdeiliaid y dylid defnyddio'r gyllideb gyfredol, fel man cychwyn, ar gyfer penderfynu ar y defnydd o ffrydiau cyllido newydd ar ôl Brexit. Daeth yr is-themâu canlynol i'r amlwg hefyd yn ystod y trafodaethau:

### 2.1 Cronfeydd Strwythurol

Mae rhanddeiliaid yn cydnabod bod Cronfeydd Strwythurol wedi bod yn werthfawr o ran darparu gofal cyffredinol, yn yr ystyr eu bod yn cysylltu gwahanol rannau'r economi â'i gilydd, a'u bod wedi helpu i ariannu prosiectau seilwaith, cynlluniau prentisiaethau (mae un



rhanddeiliad yn dweud mai £600 miliwn yw'r swm a gafwyd gan yr UE i ariannu prentisiaethau sgiliau dros y 10 mlynedd diwethaf), datblygu sgiliau ymysg y to iau ac ati. Yn ôl rhai cynrychiolwyr, o ran eu gweithredu, dylai'r ffrydiau cyllido newydd efelychu'r agweddau hyn ar Gronfeydd Strwythurol. Ymhlith cynrychiolwyr y sector addysg, lleisiwyd pryder ynghylch y posibilrwydd y bydd y gweithlu yn dioddef os nad oes trefniadau cyllido digonol ar waith, a'r posibilrwydd na fydd ein gweithlu yn gallu cystadlu ag UE27 sy'n cael ei gyllido'n dda.

## 2.2 Prifysgolion, Ymchwil, Diwydiant ac Arloesi

Cododd rhanddeiliaid yr angen i gael cyllid yn lle'r £50 miliwn a ddyrennir i brifysgolion yn flynyddol trwy Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Hefyd, roedd pryder ymhlith rhanddeiliaid y gellid colli ein hawch cystadleuol ym maes Ymchwil a Datblygu oherwydd ymadael â'r UE.

Yn ogystal, cyfeiriwyd at yr angen am agweddau mwy cyfannol at gyllid mewn perthynas â'r berthynas rhwng prifysgolion, diwydiant a'r Llywodraeth. Dadleuodd rhai rhanddeiliaid dros fwy o gydweithio rhwng prifysgolion a diwydiant ar brosiectau a ariennir ar y cyd, a thros fabwysiadu elfennau o "gynllun Frauhoffer" yr Almaen, lle mae'r llywodraeth, prifysgolion a diwydiant yn gweithio yn agosach gyda'i gilydd. Cafwyd galwad hefyd i gysylltu â ffynonellau cyllid eraill, e.e. Innovate UK a chanolfannau Catapult, er mwyn galluogi'r ymchwil a'r arloesi hwn.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Yr angen am gynlluniau cyllido sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer prifysgolion yn y dyfodol, i sicrhau nad y Triogl Aur fydd yn mynd â'r cyllid i gyd.
- Dylem anelu at aros yn rhan o brosiect Erasmus, Horizon 2020, a phrosiectau partneriaeth Ymchwil a Datblygu Ewropeaidd mawr.
- Dylid dyrannu mwy o arian i'r berthynas rhwng prifysgolion a'r GIG.

## 2.3 Y Sector Gwirfoddol a Phrosiectau Cydraddoldeb

Nododd rhanddeiliaid yn fyr y dylai arian gael ei ddyrannu i fynd yn lle arian yr UE ar gyfer prosiectau cydraddoldeb a'r tua £90 miliwn o gyllid uniongyrchol i'r sector gwirfoddol. Argymhellodd cynrychiolwyr sefydliadau yn y sector gwirfoddol y dylid defnyddio cyllid lle mae'n cael ei ddyrannu yn awr, fel man cychwyn.

